# Y Peiriant Enfysau

Roderick Hunt Alex Brychta

Piod

DRAKE





Roedd yn bwrw glaw, ond roedd yr haul
yn tywynnu yr un pryd.
Edrychodd y plant i fyny
a gweld enfys ar draws yr awyr.
“Ble mae’r enfys yn dechrau?” gofynnodd Wilff,
“a ble mae hi’n gorffen?”



Mewn lle ymhell i ffwrdd, roedd lori.
Roedd yn lori fawr iawn achos
roedd peiriant mawr iawn ar y cefn.
Peiriant gwneud enfysau oedd e
a'i enw oedd Y Peiriant Enfysau.



Mae saith lliw yn yr enfys.
Roedd angen saith o bobl i ofalu
am y peiriant enfysau.
Roedden nhw'n ei lanhau a'i sgleinio a sicrhau
ei fod yn gweithio'n iawn.




Roedd rhaid i'r peiriant enfysau
fod yn barod unrhyw adeg.
Weithiau âi wythnosau heibio
a doedd dim angen enfys.
Ond pan ddôi'r alwad, roedd rhaid
i'r gwneuthurwyr enfysau weithio'n gyflym.







I ffwrdd â nhw yn y lori.
Tra bod y lori yn mynd ar ei thaith
byddai'r gwneuthurwyr enfysau yn paratoi'r peiriant.
Yna, un…dau…tri… I ffwrdd â chi!
Gwasgen nhw fotwm a saethai'r
enfys allan o'r peiriant.




Pan fyddai enfys, byddai pawb
yn aros i edrych arni.
Byddai plant yn mynd at eu rhieni a dweud,
"Am enfys hardd!"

Weithiau byddai'r enfys yn llachar iawn
ond weithiau byddai'n eithaf gwan.
Byddai plant yn rhedeg ati'n aml.
Roedden nhw am ddod o hyd i'w phen draw,
a chwarae yn y lliwiau i gyd.
Ond, wrth gwrs, fedren nhw ddim.





Roedd gŵr ifanc o'r enw Ffred
yn un o'r gwneuthurwyr enfysau.
Roedd e'n newydd ac yn dysgu
bod yn wneuthurwr enfysau.
Un diwrnod, dywedodd y dynion eraill,
"Cadw dy lygad ar y lori, Ffred. Fyddwn ni ddim yn hir."






Roedd y lori ar ddwy linell felen.
Gwelodd Ffred warden traffig.
"O na!" meddai Ffred. "Rhaid i fi symud
y peiriant enfysau."
Felly dringodd i gaban y gyrrwr
a gyrru i ffwrdd.



Gyrrodd Ffred y lori ar hyd y ffordd.
“Mae hyn yn hwyl,” meddai.
“Ond gwell i fi beidio â bod yn rhy hir.”
Roedd am droi’r lori, felly
gyrrodd i mewn i gae.





O na! Aeth y lori’n sownd yn y mwd.
Troellodd yr olwynion
a suddodd y lori’n is ac yn is.
“Nawr beth wna i?” meddyliodd Ffred.



Yn sydyn, roedd drws yn y cae.
Daeth Cad a Dids drwyddo gyda
Wilff, Nadim ac Anneena.
Roedd yr allwedd hud gan Cad.
Roedd antur newydd wedi dechrau.



Gwelodd y plant fod lori'n
sownd yn y cae.
Yna gwelson nhw Ffred.
"Allwch chi fy helpu i?" galwodd Ffred.
"Wnewch chi wthio'r lori?"



Gwthiodd y plant, ond doedd dim yn tycio.
Roedd y lori'n rhy fawr, ac roedd
yn rhy drwm o lawer.
Yn sydyn, dechreuodd fwrw glaw
er bod yr haul yn tywynnu.






Ar y lori, dechreuodd pethau
siffrwd a fflachio.
"O na!" meddai Ffred. "Mae angen enfys.
Y Peiriant Enfysau yw hwn.
Mae'n gwneud enfysau.
Rhaid ichi i gyd fy helpu."



Helpodd y plant Ffred i dynnu'r clawr
oddi ar y peiriant enfysau.
"Waw!" meddai Cad. "O'r fan **hyn**
mae enfysau'n dod?"
"Ie," meddai Ffred, "ond wn i ddim
sut i weithio'r cyfrifiadur eto."






Roedd Nadim yn dda gyda chyfrifiaduron.
Edrychodd ar y panel enfysau.
Doedd e ddim wir yn gwybod beth i'w wneud,
ond doedd e ddim am ddweud hynny wrth Ffred.
"Peidiwch â phoeni. Medra i ei weithio," meddai.
"Nawr," meddai Ffred. "Un...dau...tri."



Anfonodd y peiriant enfysau enfys i fyny.
"Hwrê! Mae'n gweithio," meddai Wilff.
Roedd yr enfys yn rhy llachar iddyn nhw ei gweld yn iawn, felly rhoddodd Ffred sbectol dywyll i bawb.





Edrychodd y plant ar yr enfys roedden nhw wedi ei gwneud.
Doedd hi ddim yn edrych yn hollol iawn.
Galwodd Ffred ar Nadim. "Wyt ti'n siwr dy fod yn medru defnyddio'r cyfrifiadur 'na?"



Doedd yr enfys ddim yn edrych yn iawn.
I ddechrau, âi'n syth i fyny.
Wedyn âi'n syth ar draws
ac yna'n syth i lawr.
"O diar," meddai Anneena.
"Mae ganddi ochrau syth."



Arhosodd pawb i edrych ar yr enfys.
Rhedodd plant at eu mamau a'u tadau.
"Am enfys ryfedd!" medden nhw.
"Mae ganddi ochrau syth.
Welson ni erioed un fel 'na o'r blaen."



Roedd y gwneuthurwyr enfysau
yn cael cwpanaid o de.
Edrychon nhw drwy'r ffenestr.
Roedd pawb yn syllu ar yr awyr.
"O na!" meddai'r gwneuthurwyr enfysau.
"Beth mae Ffred wedi'i wneud?"







Rhedon nhw allan i'r ffordd ond
roedd y peiriant enfysau wedi mynd.
"O na!" meddai'r gwneuthurwyr enfysau.
"Ble mae Ffred wedi mynd?"
Yn yr awyr roedd enfys doredig.
"Am enfys ryfedd!" meddai pawb.




Newidiodd yr enfys eto.
Y tro hwn roedd tro ynddi
ac roedd hi'n llachar iawn.
"Rwy'n hoffi honna," meddai bachgen bach.
"Mae'n edrych yn ardderchog."






"Rhaid inni gael hyd i'r peiriant enfysau,"
galwodd y gwneuthurwyr enfysau.
Edrychon nhw i fyny i'r awyr.
Roedd yr enfys wedi newid eto.
"O na!" meddai un ohonynt.
"Dydw i ddim eisiau edrych!"




Yn ôl yn y peiriant enfysau, roedd
rhywbeth wedi mynd o'i le.
Roedd Nadim wedi bod yn rhy glyfar.
Roedd yr enfys yn gollwng
ac roedd y coch i gyd yn diferu.





Roedd yr awyr yn troi'n goch.
"O na!" meddai Nadim. "Fedra i ddim stopio'r coch.
Diffoddwch y peiriant enfysau."
Gwelwodd Ffred.
"Fedra i mo'i ddiffodd," meddai.



Cafodd y gwneuthurwyr enfysau hyd i'r lori.
Roedden nhw'n flin gyda Ffred.
"Bydd diwrnodau'n mynd heibio
cyn cawn ni'r awyr yn las eto," medden nhw.







Roedd yn rhaid i'r peiriant enfysau
gannu'r awyr.
"Fu erioed rhaid inni wneud hyn o'r blaen,"
meddai un o'r gwneuthurwyr enfysau.
"Gobeithio y bydd yn gweithio."



Roedd yr awyr wedi troi'n wyn.
Doedd yr haul ddim yn felyn bellach.
"Mae'n well o lawer nag awyr goch,"
meddai un o'r gwneuthurwyr enfysau.
"Mae awyr goch yn gwneud pawb yn fyr eu tymer."



"Mae'n flin iawn gyda ni," meddai Nadim.
"Fy mai i oedd e.
Peidiwch â beio Ffred."
"Mae'n iawn," meddai'r gwneuthurwyr enfysau.
"Fydd yr awyr fawr o dro'n troi'n las eto."
Yn sydyn, dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.



Roedd yr awyr yn las a'r haul yn disgleirio.

"Nid fel'na mae'r enfys yn cael ei gwneud go iawn, ife?"
gofynnodd Onw.

"Well iti fynd i ben draw un
i gael yr ateb," meddai Anneena.

Argraffwyd yng Nghymru

# Y Peiriant Enfysau

Coeden Ddarllen Rhydychen

Cam 8



Pïod

Stori gan
**Roderick Hunt**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

Addasiad Cymraeg gan
**Juli Paschalis**

**Pïod Cam 8**
**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Yr Herwgipwyr
Antur Lychlynnaidd
Y Peiriant Enfysau
Y Carped Hud
Diwrnod yn Llundain
Antur Fictoraidd

**Pïod Cam 9**
**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Yr Ynys Fach Werdd
Castell y Ddrycin
Supermwls
Y Frenhines Sbwriel
Chwilio
Cadw'n Fyw

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1990
ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-316-4

ISBN 0 86 174316 4

DRAKE

9 790861 743161